Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Trydydd Sector Cymru







"Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am y cyfraniad a wna'r Sector i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, a'i phobl a'i chymunedau."

## Adroddiad Blynyddol 2017-18

Mawrth 2019

# Cynnwys

**Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r modd y rhoddwyd Cynllun y Trydydd Sector ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2017-18.**


1 **Rhagair – Jane Hutt AC, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip** 3

2 **Cipolwg gan y Sector/Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** 5

3 **Diben a chefndir/Cynllun y Trydydd Sector** 6

3.1 Beth yw'r Trydydd Sector? 6

3.2 Cynllun y Trydydd Sector 8

4 **Sut rydym yn gweithio gyda'r Trydydd Sector** 10

4.1 Yr hyn a ddywed y cynllun 12

4.2 Beth a ddigwyddodd yn 2017-18? 13

4.2.1 Deialog a Chydweithredu 13

4.2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector 14

4.2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion 16

4.2.4 Ymgynghoriadau 16

4.2.5 Datblygu Polisi 18

5 **Cefnogi'r Trydydd Sector i ffynnu** 19

5.1 Cefnogi gwirfoddoli 20

5.2 Llywodraethu da ac Ymddiriedolwyr effeithiol 20

5.3 Cyllid Cynaliadwy 20

5.4 Ymgysylltu a dylanwadu – rhoi llais i'r sector 21

5.5 Cronfa Capasiti Partneriaeth 21

5.6 Diogelu 21

5.7 Cronfa Newid 21

5.8 Cyllid a ddarparwyd i gynorthwyo Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2017-18 22

5.9 Perfformiad TSSW yn 2017-18 23

6 **Cefnogi Cymunedau a Gwirfoddoli** 29

7 **Cyllid Llywodraeth Cymru a Chefnogaeth ar gyfer y Trydydd Sector** 33

8 **Edrych ymlaen at 2018-19** 34

9 **Gwybodaeth Bellach** 35


## Astudiaeth Achos


**Llywodraethu Da – Helpu'r Sector i recriwtio ymddiriedolwyr** 27

**Gwirfoddoli – Codi Arian ar gyfer Hosbis Dewi Sant** 31

**Gwirfoddoli – Rhoi ac Ennill – Diwrnodau Gwirfoddoli Gweithwyr** 32

# 1. Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r Trydydd Sector yn fawr oherwydd y cyfraniad a wna at les Cymru, ei phobl a'i chymunedau. Felly, pleser i mi yw cael cyflwyno adroddiad blynyddol 2017/18 ar y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru i gydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector.

Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfle inni esbonio sut mae'r berthynas hon yn parhau i dyfu. Mae'n tynnu sylw at feysydd gwaith y mae Llywodraeth Cymru a'r Sector yn eu cyflawni ar y cyd i gyfoethogi ac atgyfnerthu perthynas sydd wedi aeddfedu a thyfu ers ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r elfen unigryw o fod â dyletswydd yn y ddeddfwriaeth sefydlu ar gyfer Cymru i hyrwyddo'r Trydydd Sector bob amser wedi rhoi sylfaen gadarn inni ar gyfer gweithredu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gallwn fod yn hunanfodlon, yn enwedig wrth wynebu heriau fel Brexit a chyni parhaus.

Ers dechrau gweithio fel Dirprwy Weinidog gyda chyfrifoldebau dros y Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli (rhan o'r Trydydd Sector) rwyf wedi cyfarfod â phobl sy'n arwain sefydliadau'r Trydydd Sector a chanddynt y grym i wneud pethau a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, cymunedau a'u hamgylchedd.

Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi'r Trydydd Sector trwy gyllido Cefnogi Trydydd Sector Cymru (sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n ymdrin â'r 22 ardal Awdurdod Lleol ledled Cymru) i ddarparu'r sylfeini hanfodol ar gyfer galluogi'r sefydliadau hyn i wneud yr hyn a wnânt orau: cefnogi unigolion a grwpiau trwy alluogi gwirfoddoli, yn ogystal â darparu canllawiau a rhaglenni penodol yn ymwneud â materion amserol fel llywodraethu a chyllid cynaliadwy. Mae'r seilwaith hwn yno i'r holl Sector ei ddefnyddio.

Gan edrych ymlaen, rhaid inni fod yn agored ac yn onest ynglŷn â'r heriau a wynebwn. Wrth i Brexit nesáu, mae cyrff y Trydydd Sector yn ymateb i newidiadau a ddaw i'r amlwg a'r modd y gallant gefnogi a galluogi'r dasg o ddarparu gwasanaethau hollbwysig i'n cymunedau. Mae pob un ohonom eisiau sicrhau y bydd gwasanaethau yng Nghymru'n parhau i gael eu darparu'n ôl y safonau uchaf posibl i drigolion Cymru ar ôl inni adael yr UE. Y llynedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer deall yn well sut gallai proses Brexit effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru er mwyn helpu'r Trydydd Sector a grwpiau cymunedol i gynllunio ar gyfer yr holl bosibiliadau. Rwy'n falch fod Cronfa Bontio'r UE ar gael i'r Trydydd Sector ar gyfer ymdrin â'r heriau hyn.

Er bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, mae llawer o'r gwaith a'r gweithgareddau yn yr adroddiad hwn yn cynnig sawl cipolwg ar ffordd gydweithredol a gwell o weithio rhwng y Sector a Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd nifer o'r gwelliannau yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'r Sector heddiw ar waith yn ystod cyfnod 2017/18 ac maent yn dechrau dwyn ffrwyth.

Hoffwn ddiolch i Cefnogi Trydydd Sector Cymru am gyflwyno platfform newydd ac unedig Gwirfoddoli Cymru; y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd i'n galluogi i gasglu gwell data am effaith y Trydydd Sector; a gwaith i ddatblygu'r platfformau digidol fel https://en.infoengine.cymru/ a https://funding.cymru/ sy'n helpu sefydliadau i gael mynediad at gyfleoedd i amrywio'u ffynonellau cyllid.

Mae'r rhain yn welliannau pwysig i seilwaith y Trydydd Sector a byddant o fudd i bobl a chymunedau ar draws Cymru am flynyddoedd i ddod.

Rwy'n hyderus y bydd ein Cynllun Trydydd Sector statudol yn parhau i alluogi Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector i gynnal y sgyrsiau a'r cysylltiadau y byddwn eu hangen i'n helpu i lywio trwy'r heriau y mae cymunedau Cymru'n eu hwynebu yng nghyd-destun Brexit (a thu hwnt).

Fel bob amser, mae gwirfoddoli yn parhau wrth wraidd cymunedau ar draws Cymru. Rwyf bob amser yn falch o'r grwpiau lu o bobl ac unigolion ledled Cymru sy'n rhoi a'u hamser i gynorthwyo eraill. I'r rhai sy'n gwneud cymaint i eraill, hoffwn ddiolch ichi ar ran Llywodraeth Cymru. Cofiwch barhau i'n hysbrydoli trwy wneud popeth o fewn eich gallu i barhau i wneud Cymru'n wlad o ddinasyddion gweithgar a gwirfoddolwyr gofalgar a thosturiol.





**Jane Hutt AC**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

# 2. Cipolwg gan y Sector

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Yng Nghymru ceir nifer o gymunedau cryf lle y mae pobl yn cynorthwyo'i gilydd ac yn cymryd camau i newid pethau er gwell. Yng Nghymru hefyd ceir ardaloedd o amddifadedd eithafol ac anghydraddoldeb enfawr o ran adnoddau a chyfleoedd. Mae'r Trydydd Sector – gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol ac elusennau – yn weithgar ym mhob cymuned gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i wead ein cymdeithas.

Mae'r Trydydd Sector ar waith 24/7, ac mae unigolion, teuluoedd a chymunedau fel ei gilydd yn dibynnu arno. Grwpiau sy'n darparu cyngor a chymorth ymarferol i blant, teuluoedd a phobl hŷn. Elusennau sy'n codi arian hollbwysig ar gyfer ymchwilio i wella iechyd pobl. Gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser i dacluso traethau neu lannau afonydd yn eu hardal, eraill sy'n achub bywydau ar y môr neu ar fynyddoedd. O les anifeiliaid a'r amgylchedd, i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth – o iechyd a llesiant i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Pennodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad a'i chefnogaeth dros annibyniaeth y Trydydd Sector mewn ffordd unigryw – Cynllun y Trydydd Sector.


Ers datganoli yn 1999, mae'r Sector yng Nghymru wedi bod yn destun cenfigen i'r DU, gan fod y cynllun hwn yn rhoi'r cyfle i ni ddylanwadu ar, ac ymgysylltu â Gweinidogion Cymru er mwyn helpu i gynllunio a datblygu'r polisïau a'r deddfwriaethau gorau posibl.

Y WCVA yw'r corff aelodaeth cenedlaethol sy'n arwain ac yn cefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Gwirfoddol Sirol sydd ar waith ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod y Sector yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion amrywiol cymunedau ledled y wlad.

Mae'r WCVA yn cynorthwyo i hwyluso Cynllun y Trydydd Sector – gan weithio'n agos gydag aelodau, partneriaid, rhwydweithiau a Llywodraeth Cymru.

Yn yr adroddiad hwn ceir ystod o wybodaeth ar ffurf astudiaethau achos ac ystadegau er mwyn cynnig trosolwg cynhwysfawr o waith y Sector a Chynllun y Trydydd Sector ar gyfer 2017-18.

Mae pobl yn cymryd rhan yn y Trydydd Sector am fod achosion penodol yn eu cymunedau yn bwysig iawn iddynt. O gofio amseroedd cynyddol ansicr ein dydd, nid yw'r ddeialog barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru, na'r berthynas sy'n datblygu rhyngddynt, erioed wedi bod yn bwysicach.



**Peter Davies CBE**
Cadeirydd



**Ruth Marks MBE**
Prif Swyddog Gweithredol

# 3. Diben a chefndir/Cynllun y Trydydd Sector

## 3.1 Beth yw'r Trydydd Sector?

Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu pob agwedd ar brofiadau pobl fwy neu lai. Mae'n cynnwys sefydliadau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfeddiannol, i enwi dim ond rhai.

Daw'r Trydydd Sector ar ffurf amrywiaeth o ffurfiau sefydliadol, yn cynnwys elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant (a all hefyd fod yn Elusennau Cofrestredig), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob sefydliad ei nodau, ei ddiwylliant arbennig a'i werthoedd ei hun, ynghyd â'i ffordd ei hun o wneud pethau, ond maent i gyd yn rhannu rhai nodweddion pwysig – gweler isod.

**Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu bron pob agwedd ar fywyd. Mae rhai nodweddion pwysig yn gyffredin rhyngddynt sef:**

**Cyrff annibynnol ydyn nhw nad ydyn nhw'n perthyn i lywodraeth ac a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu.**



**Mae gwerthoedd yn bwysig iddyn nhw a chânt eu harwain gan awydd i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach na'r awydd i wneud elw.**



**Ymrwymiad i ail-fuddsoddi'r hyn sydd dros ben i hyrwyddo eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.**



**Rydym yn parhau'n grediniol y dylid ystyried y cyrff sydd â'r nodweddion hyn fel rhai sy'n perthyn i "sector" unigryw.**

**Yn weithredol ym mhob cymuned ledled Cymru.**

| 32,000 | £3.8b | 938,000 |
|---|---|---|
| O Fudiadau Gwirfoddol | Amcangyfrif o werth y Sector | O Wirfoddolwyr |

## 3.2 Cynllun y Trydydd Sector

Gwneir Cynllun y Trydydd Sector dan Adran 74 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Cynllun sy'n ddatganiad o fwriad Gweinidogion Cymru i gefnogi a hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau fel Gweinidogion Cymru.

**Cynllun y Trydydd Sector**

**Rhannu syniadau a gwybodaeth**




**Cynllunio ar y cyd**



**Monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau**



**Sicrhau arian ar gyfer pob maes polisi**



**Diddordeb cytûn yn y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn cydweithio â'r Trydydd Sector**



**Themâu trawsbynciol y cynllun:**
- **Mynd i'r afael â thlodi**
- **Datblygiad Cynaliadwy**
- **Cydraddoldeb**
- **Y Gymraeg.**

Gellir dod o hyd i destun y ddeddfwriaeth ar y ddolen isod: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/74

Amcan Cynllun y Trydydd Sector yw cael partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector sydd â'r bwriad o'n helpu i ddatblygu a chefnogi prosesau a fydd, yn y pen draw, yn arwain at y canlynol:

- **Cymunedau cryfach a mwy cadarn** – y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol at ffyniant ac adfywiad eu cymunedau, darparu gofal a helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd y mae'r Trydydd Sector yn eu creu o ran cyflogaeth a mentrau lleol.
- **Polisi gwell** – yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r Trydydd Sector yn eu cynnig trwy ei brofiad rheng flaen er mwyn helpu i lunio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau.
- **Gwasanaethau cyhoeddus gwell** – y rôl arloesol a thrawsnewidiol sydd gan y Trydydd Sector wrth wneud i wasanaethau cyhoeddus gyrraedd mwy o bobl a dod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

Mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i Aelodau'r Cabinet, Dirprwy Weinidogion a swyddogion hyrwyddo buddiannau'r Trydydd Sector yn eu gwaith a'r penderfyniadau a wnânt. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i'r canlynol:

- cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon gyda'r Trydydd Sector;
- cynnal trefniadau ar gyfer cynorthwyo cymunedau a gwirfoddolwyr;
- cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi strwythurau sy'n caniatáu i'r Trydydd Sector ffynnu;
- ceisio cadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (fe'i cynhwysir fel Atodiad i'r Cynllun).

Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth gyda'r Sector, a hefyd cyllido.

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/140130-third-sector-schemeen.Pdf

# 4. Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Trydydd Sector

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddorion canlynol:**

- Trydydd Sector annibynnol.
- Sicrhau bod llais y Sector yn llywio polisïau da.
- Cydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector.




Yn 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru "*Symud Cymru Ymlaen*", sef Rhaglen bum mlynedd o amcanion polisi a roddir ar waith gennym, ac yna "*Ffyniant i Bawb*" sy'n pennu meysydd gweithgareddau penodol.

https://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-en.pdf

Yr hyn sydd wrth wraidd *"Symud Cymru Ymlaen"* yw'r pethau y gobeithiwn eu cyflawni o fewn y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Cânt eu dosbarthu dan bedwar pennawd arbennig:


- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egnïol
- Yn Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig.

Mae *"Ffyniant i Bawb"* yn pennu'r camau y byddwn yn eu cymryd. Bydd y camau hyn yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion ehangach a nodir uchod.

https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

Rydym wedi pennu'r meysydd canlynol ar gyfer gweithredu â blaenoriaeth.

- Y Blynyddoedd Cynnar
- Tai
- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd Meddwl
- Sgiliau a Chyflogadwyedd:




Wrth ddatblygu *Ffyniant i Bawb*, roeddem yn glir fod gan y Trydydd Sector rôl hollbwysig wrth helpu i gyflawni ein camau a'n hamcanion – dyna pam y caiff y Sector ei gynnwys yn y ddogfen mewn cymaint o leoedd.

Oherwydd amrywiaeth eang y cyfraniadau gan y Sector, ni fwriedir eu rhestru. Gellir gweld trosolwg o'r cynnydd mewn perthynas â'r camau a gymerwyd i gyflawni ein hymrwymiadau yma:

https://gov.wales/docs/strategies/181002-prosperity-for-all-annual-report-cy.pdf

## 4.1 Yr Hyn a Ddywed y Cynllun

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn pennu sut y bydd Llywodraeth Cymru (a'i hasiantaethau cyflawni) a'r Trydydd Sector yn gweithio gyda'i gilydd o ran:

- Rhannu barn a gwybodaeth, trwy gyfrwng prosesau pennu ac ymgynghori cynnar, ynghylch effaith polisïau a'u gweithrediad yn y dyfodol ar y Trydydd Sector a'r cyfraniad y gall y Trydydd Sector ei wneud.
- Mynd ati ar y cyd i gynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau lle y ceir cyfraniad gan y Trydydd Sector.
- Cyllido ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.
- Diddordeb cyffredin yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn rhyngweithio â'r Trydydd Sector.

Mae'r Cynllun hefyd yn ystyried themâu trawsbynciol Trechu Tlodi, Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg.

Fel rhan o'n deialog ddwy ffordd, mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cynnal amryfal sianeli ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'i gilydd ac mae'r Cynllun yn pennu'r **trefniadau ymgysylltu ffurfiol ar draws 5 maes**:

1. **Deialog a chydweithredu** – cytuno ar ddeialog neu drefniadau ymarferol a chyfnewid gwybodaeth.
2. **Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector** – fel y prif ddull ymgysylltu, a fydd yn ystyried materion fel gweithredu'r cynllun, hwyluso ymgynghori, ystyried materion strategol.
3. **Cyfarfodydd Gweinidogion** – ategu ymgysylltu arferol gyda chyfarfodydd sy'n canolbwyntio'n fanwl ar faterion lefel uchel a all effeithio ar fwy nag un sefydliad yn y Trydydd Sector.
4. **Cynnwys y Trydydd Sector wrth ddatblygu polisïau** – ystyried goblygiadau polisïau newydd neu newidiadau mewn polisïau ar y Trydydd Sector.
5. **Casgliad** – cytuno ar weithdrefnau ymgynghori gyda'r Trydydd Sector.

Mae'r trefniadau hyn yn parhau i gael cefnogaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff meysydd 2 a 3 uchod gefnogaeth trwy gyfrwng *Fframwaith Ymgysylltu* y cytunodd y ddwy ochr arno; caiff nodau'r fframwaith eu cynnwys ym Mhennod 3 y cynllun (gweler Tabl 1 isod).

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar y Fframwaith Ymgysylltu presennol ym mis Tachwedd 2014.

## Tabl 1

Bydd y Fframwaith Ymgysylltu'n:

- Cysylltu a rhoi perchnogaeth i aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector o ran pennu ac olrhain y broses a'r cynnydd.
- Helpu aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda'u gwaith i ymgysylltu â'r sector ehangach.
- Creu proses sy'n cynhyrchu agendâu a chanlyniadau cyffredin.
- Cefnogi cyfarfodydd Gweinidogion mwy penodol.
- Sicrhau canlyniadau cliriach ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogion a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.
- Ychwanegu gwerth at gyfraniad y llywodraeth a'r Trydydd Sector.
- Cynnal diddordeb ac ymrwymiad y Trydydd Sector a'r Gweinidogion.
- Helpu Gweinidogion a'r Trydydd Sector i gyflawni eu hamcanion.
- Cynnig adnoddau ychwanegol.

*Ffynhonnell: Cynllun y Trydydd Sector (2014, Llywodraeth Cymru)*

# 4.2 Beth a ddigwyddodd yn 2017-18?

## 4.2.1 Deialog a Chydweithredu

Enghraifft dda o "ddeialog a chydweithredu" a ddigwyddodd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn ystod y cyfnod hwn oedd datblygu a chyflwyno rhaglen Cymunedau am Waith.

Gwasanaeth cyflogadwyedd cymunedol sy'n werth £70.6 miliwn yw rhaglen Cymunedau am Waith, a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a gyd-noddir gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n gweithio gyda phobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

Cymunedau am Waith
Communities for Work

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund




Gan gyflawni amcan allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd trafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn datblygu a sefydlu prosiectau cyflogadwyedd cymunedol a oedd yn gweithio gyda'r unigolion anoddaf eu cyrraedd mewn cymdeithas, yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru (fel y'u nodir gan Fynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2014). Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Awdurdodau Lleol a
- Sefydliadau'r Trydydd Sector.





Arweiniodd hyn at ddull amlasiantaethol, cydweithredol, gan sicrhau bod Cymunedau am Waith wedi'i weithredu i'r eithaf er mwyn trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy.

Ers 2014, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi bod â rôl allweddol fel aelod o Fwrdd Strategol Cymunedau am Waith. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n gyfrifol am lywodraethu rhaglenni Cymunedau am Waith; darparu cyfeiriad strategol i'r gweithrediadau, o ran datblygu a chyflawni; a darparu cyngor a sicrwydd ynghylch pob agwedd ar Cymunedau am Waith.

Mae Cymunedau am Waith yn dal i fod â pherthynas weithio agos â'r WCVA a chaiff y rhaglen ei chynrychioli ar Fwrdd Anweithgarwch Economaidd y WCVA, gan ystyried cysylltu Cymunedau am Waith a rhaglenni eraill er mwyn lleihau dyblygu a chanfod bylchau o ran y ddarpariaeth. Caiff swyddogion Cymunedau am Waith eu cynnwys yn y broses ymgynghori 'cyn rhoi contract' ar gyfer ceisiadau am gyllid, a gofynnir iddynt gyflwyno sylwadau ynghylch cynlluniau cyflawni Cynhwysiant Gweithredol posibl.

Er mwyn cyflawni Cymunedau am Waith yn Awdurdod Lleol Blaenau Gwent, cynhaliwyd trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent er mwyn sefydlu 4 tîm cyflawni yn eu cymunedau.

## 4.2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yw'r prif ddull ymgysylltu, lle yr ystyriwyd materion fel rhoi'r cynllun ar waith, hwyluso ymgynghori a materion strategol (sonnir am rai ohonynt isod). Cynrychiolwyd 25 maes diddordeb, sef:

| Maes Diddordeb | Sefydliad Cynrychiadol |
|---|---|
| Cyngor ac Eiriolaeth | Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol |
| Lles Anifeiliaid | Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru |
| Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Plant a Theuluoedd | Plant yng Nghymru |
| Y Gymuned | Yr Ymddiriedolaeth Creu Cymunedau |
| Cyfiawnder Cymunedol | Cyfiawnder Cymunedol Cymru |
| Anabledd | Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru |
| Addysg a Hyfforddiant | Addysg Oedolion Cymru |
| Cyflogaeth | Siawns Teg |
| Yr Amgylchedd | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Lleiafrifoedd Ethnig | Y Gynghrair Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) |
| Rhywedd | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Llesiant a Chwaraeon |
| Tai | Homes for All Cymru |
| Cyfryngwyr Lleol a Rhanbarthol | CVC Cymru |
| Rhyngwladol | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| Pobl Hŷn | Age Cymru |
| Crefydd | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Rhywioldeb | Stonewall Cymru |
| Menter Gymdeithasol | Y Rhwydwaith Menter Gymdeithasol |
| Chwaraeon a Hamdden | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Gwirfoddoli | Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru |
| Yr Iaith Gymraeg | Mentrau Iaith Cymru |
| Ieuenctid | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |

Yn 2017-18 dechreuodd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ystyried sut roedd yn gweithio, y meysydd roedd yn ymdrin â nhw a beth oedd disgwyliadau partneriaid o ran yr hyn y gallai ei gyflawni fel cyfrwng newid.

Cyfarfu'r Cyngor ar 7 Mawrth 2018. Roedd y trafodaethau'n cynnwys "Cyni", trosglwyddo asedau, sut i rymuso cymunedau, a phwysigrwydd grymuso pobl a lleoedd er mwyn gwella'u bywydau. Hefyd, cafwyd trafodaeth ynghylch sut dylai'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector barhau i gael ei wella.

Gwrandawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Alun Davies AC, ar farn y Sector ynghylch:

- Cydnabyddiaeth y cyhoedd o'r cyfraniad a wnânt o fewn eu cymunedau.
- Sut dylem ymgysylltu a gweithio gyda'r sefydliadau bach a niferus yn y Trydydd Sector nad ydynt yn cael cyllid cyhoeddus, ond sy'n dal i fod â rôl hollbwysig wrth gefnogi pobl a chymunedau.
- Pan gaiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu trwy sefydliadau'r Trydydd Sector, er enghraifft Awdurdod Lleol yn cyllido darpariaeth gwasanaeth trwy elusen neu grŵp cymunedol lleol, y newidiadau bach y gellid eu gwneud i bolisïau ac arferion a fyddai'n arwain at redeg y gwasanaethau'n rhwyddach gyda llai o oruchwyliaeth.
- Pwysigrwydd denu pobl ifanc i gymryd rhan a chael eu grymuso yn ein cymunedau fel gwirfoddolwyr ac arweinwyr cymunedau er mwyn sicrhau y bydd modd inni gynnal traddodiadau cymunedau o ran 'gofalu am ei gilydd', sy'n parhau i nodweddu'r ysbryd Cymreig a grymuso cymunedau.
- Ymrwymiadau a blaenoriaethau cyllido'r Sector Cyhoeddus – yn awr ac yn y dyfodol.

## 4.2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion



Mae cyfarfodydd Gweinidogion yn ategu ymgysylltu beunyddiol swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y Trydydd Sector gyda chyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar faterion polisi strategol a all effeithio ar fwy nag un rhan o'r Trydydd Sector.

Yn 2017-18 cynhaliwyd sawl cyfarfod rhwng Gweinidogion Cymru a sefydliadau'r Trydydd Sector dan nawdd Cynllun y Trydydd Sector.

Yn ychwanegol at hyn, ymgysylltodd Gweinidogion Cymru â sefydliadau'r Trydydd Sector mewn nifer o ffyrdd gwahanol y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol hyn – yn cynnwys ymweld â sefydliadau, mynychu digwyddiadau a chynadleddau, a thrwy gyfrwng gohebiaeth neu gyfarfodydd gyda grwpiau neu sefydliadau unigol er mwyn clywed yn fwy penodol am faterion a oedd yn effeithio arnynt.

Gellir dod o hyd i gofnodion cyfarfodydd y Gweinidogion ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/ministers/?skip=1&lang=cy

Fel enghraifft o'r math o faterion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn, yn ei gyfarfod gyda'r Sector ym mis Chwefror 2018 trafododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC, bwysigrwydd Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru a rôl yr economi gymdeithasol a'r cymorth y byddai Llywodraeth Cymru'n ei roi wrth ei weithredu.

## 4.2.4 Ymgynghoriadau



Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithdrefnau ar gyfer ymgynghori ynghylch newidiadau polisi a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar y Trydydd Sector, yn cynnwys:

- cyfleoedd ar gyfer parhau i gynnal trafodaethau rhwng y Trydydd Sector, buddiannau gwirfoddoli a Llywodraeth Cymru er mwyn meithrin dealltwriaeth a chysylltiad cynnar mewn datblygiadau polisi
- trefniadau ymgynghori sydd fel arfer yn caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori ehangach gyda rhwydweithiau a defnyddwyr gwasanaethau
- cefnogi rôl cyrff ambarél a chyfryngwyr wrth hwyluso ymgynghori
- rhoi adborth i ymatebwyr ynghylch atebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau'r ymgynghoriad
- cyfleoedd i'r sector barhau i gymryd rhan yn ystod camau gweithredu a gwerthuso'r polisi.

Cyhoeddwyd 89 o ymgynghoriadau rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, yn cynnwys ymgynghoriadau'n ymwneud â'r canlynol:

- Teithio gostyngol ar fysiau ar gyfer pobl iau
- Canllawiau drafft ar y rhaglen Cefnogi Pobl, ynghyd â fframwaith canlyniadau
- Galluogi Sipsiwn, Sipsiwn Roma a Theithwyr
- Gweithredu Cam 2 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Fframwaith safonau a chanlyniadau cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc.

O blith y 5 enghraifft a restrir uchod, cafwyd cyfanswm o 62 ymateb gan sefydliadau'r Trydydd Sector (cenedlaethol a lleol). I weld ymgynghoriadau 'wedi cau' a Chrynodeb o'r Ymatebion a Dderbyniwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, dilynwch:

https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau?keywords=&field_consultation_status=2&All_=All&published_after=&published_before=&page=0



## 4.2.5 Datblygu Polisi

Enghraifft o gynnwys y Trydydd Sector yn y dasg o "Ddatblygu Polisi" yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cryno ar ganlyniadau ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn i gyfarwyddo datblygiad cynllun tlodi tanwydd seiliedig ar alw yn y dyfodol.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gweithdai a fynychwyd gan sefydliadau'r Trydydd Sector yn sector Ynni'r DU a'r rhai a oedd yn darparu gwasanaethau cynghori.

Parhawyd i ymgysylltu â sefydliadau fel National Energy Action (NEA), Cyngor ar Bopeth Cymru a'r Energy Savings Trust trwy 2017-18 wrth i gynigion ar gyfer cynllun newydd seiliedig ar alw gael eu datblygu a'u gweithredu.

Gan fod cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei ddatblygu, a chan fod Rheoliadau'n ymwneud â llywodraethu'r cynllun yn cael eu diwygio, parhaodd Llywodraeth Cymru i gael deialog agored gyda phartneriaid allweddol a'r rhai a oedd â diddordeb penodol yn y maes gweithgaredd hwn yn y Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod y cynigion yn diwallu anghenion trigolion Cymru.




Paratowyd asesiadau effeithiau ar y cynigion am beilot amgylchiadau iechyd ar gyfer Cynllun Nyth, gyda sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael gwahoddiad i gyfrannu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'n gyhoeddus Ymgyrch Cartrefi Clyd dan arweiniad NEA yng Nghymru ac wedi cyllido'r Energy Savings Trust yng Nghymru fel rhan o'r trefniant contractio ar gyfer Cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd.



# 5. Cefnogi'r Trydydd Sector i ffynnu

Trwy roi cyllid craidd i Cefnogi Trydydd Sector Cymru – sef partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ac 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru – llwyddodd Llywodraeth Cymru i gefnogi Seilwaith y Trydydd Sector a fu'n cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Trydydd Sector ar bob lefel, ynghyd â bod yn atebol iddo.

Canolbwyntiodd y gefnogaeth hon ar 4 maes gweithgaredd allweddol; Gwirfoddoli, Llywodraethu Da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus.

Ymhellach, bu'r WCVA yn rhedeg gwasanaeth Desg Gymorth cenedlaethol, a roddodd gymorth i'r ymholwr neu ei gyfeirio at eraill am gymorth pellach: (0800) 2888329.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

https://thirdsectorsupport.wales/cy/

**Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.**

**Gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru, trefnwyd 5,256 o leoliadau i wirfoddolwyr trwy TSSW yn 2017-18.**

**Lawrlwythwyd 900,000 o daflenni ar redeg a rheoli sefydliadau oddi ar wefannau TSSW.**

**Ymatebodd TSSW i 150,000 o ymholiadau ynghylch arferion da'n ymwneud â rheoli gwirfoddolwyr**

**Dosbarthwyd grantiau a benthyciadau gwerth £27.3m gan Lywodraeth Cymru ac eraill i'r Trydydd Sector**

**Trefnwyd 900 o gyrsiau hyfforddi, gyda mwy na 10,000 o gyfranogwyr**

**Cynorthwyodd TSSW sefydliadau cenedlaethol a lleol i gael gafael ar fwy na £39.9m trwy gynlluniau grantiau / benthyciadau**

**Llwyddodd 5,240 o wirfoddolwyr ifanc i ennill tystysgrifau 50 awr Gwirfoddolwyr y Mileniwm, a llwyddodd 700 i gyflawni 200 awr o wirfoddoli**

## 5.1 Cefnogi Gwirfoddoli

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales



Gwefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli ledled Cymru yw https://volunteering-wales.net/?lang=cy. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan CGGC, sy'n gweithio gyda Chanolfannau Gwirfoddoli a sefydliadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr.

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn darparu cyngor a chanllawiau i wirfoddolwyr trwy gyfrwng y wefan, wyneb yn wyneb, ar y ffôn, trwy e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Buont hwy, ynghyd â sefydliadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, yn cynnig hyfforddiant mewn datblygiad personol a phroffesiynol, gyda gwirfoddolwyr yn cael tystysgrifau a chymwysterau.

Yn ychwanegol at y seilwaith gwirfoddoli hwn, roedd CGGC hefyd yn gweinyddu Grant Gwirfoddoli Cymru, a fu'n:

- cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol i recriwtio, cefnogi, hyfforddi a chanfod lleoliadau i wirfoddolwyr newydd
- annog arferion da wrth wirfoddoli
- cefnogi datblygiad gwirfoddoli mewn meysydd annatblygedig fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, meysydd â llai o gyfleoedd gwirfoddoli neu fathau o gyfleoedd gwirfoddoli.

Roedd grantiau ar gael trwy'r gronfa grantiau hon ar gyfer costau cydlynydd gwirfoddoli, hyfforddiant i wirfoddolwyr a chostau teithio, ynghyd â rhai eitemau cyfalaf.

Parhaodd Gwirfoddoli Cymru i gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwirfoddoli mewn sawl ffordd, yn cynnwys trwy gyfrwng Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid mewn Canolfannau Gwirfoddoli ledled Cymru. Cynigiodd Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid gyngor a gwybodaeth yn ymwneud â sut i ddod yn wirfoddolwr. Fe wnaethant alluogi pobl ifanc i siarad am yr hyn yr oeddynt eisiau ei wneud a'r hyn yr oeddynt eisiau ei gael yn sgil y profiad.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Wirfoddoli ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn.

## 5.2 Llywodraethu da ac Ymddiriedolwyr effeithiol

Mae ymddiriedolwyr yn darparu arweinyddiaeth, eglurder ac atebolrwydd ar draws y Trydydd Sector. Roedd Llywodraeth Cymru a TSSW yn ymrwymedig i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cael pob cefnogaeth angenrheidiol i fod yn effeithiol yn eu rolau.

Roedden nhw'n defnyddio'r gefnogaeth hon mewn sawl modd, o hyfforddiant i seminarau a gweithdai, yn ogystal â diweddariadau o wefannau, e-fwletinau, cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am nifer yr ymyriadau a gynigir yn Adran 5.9 yr Adroddiad hwn.

## 5.3 Cyllid Cynaliadwy

Helpodd TSSW sefydliadau i gael cyllid i gyflawni eu nodau, waeth a oedd y nodau ar gyfer sicrhau grantiau, caffael contractau neu gyllid ar fenthyg.

Yn 2017-18, roedd cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer y sector yn cynnwys chwiliadau am gyllid, cymorth ymarferol gyda cheisiadau am gyllid; arallgyfeirio incwm; codi arian; cynllunio busnes; rheolaeth ariannol; tendro; masnachu; a chydweithio.

## 5.4 Ymgysylltu a dylanwadu – rhoi llais i'r sector

Gweithiodd TSSW i sicrhau y gallai'r Trydydd Sector gyfrannu at bolisïau ar bob lefel o wneud penderfyniadau. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfraniadau a wnaed i ddatblygiad polisïau a nifer y partneriaethau yr ymgysylltwyd â nhw ar gael yn Adran 5.9 yr Adroddiad hwn.

Ar lefel genedlaethol, hwyluswyd y llais hwn trwy grwpiau cynllunio strategol a rhwydweithiau a fforymau, tra bod gwybodaeth am ymgynghoriadau perthnasol yn cael ei hyrwyddo trwy amrywiaeth o lwybrau cyfathrebu'r seilwaith.

Roedd CVC yn cymryd rhan mewn partneriaethau sector cyhoeddus allweddol yn eu hardaloedd, ac yn gweithio i sicrhau bod gan y sector fewnbwn i bartneriaethau rhanbarthol newydd.

Yn ogystal â'r 4 piler allweddol o gymorth roedd cyllid Llywodraeth Cymru i TSSW hefyd wedi galluogi cymorth mewn 3 maes pwysig.

## 5.5 Cronfa Capasiti Partneriaeth

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn awyddus i rymuso cyfranogaeth ac wedi parhau i ddarparu cyllid i sicrhau bod sefydliadau o bob maint o'r Trydydd Sector o fudiadau grwpiau cymunedol lleol bychain i'r sefydliadau cenedlaethol ymbarél yn cael cyfleoedd i roi eu safbwynt neu i gyfrannu eu cyngor er mwyn helpu i ddatblygu polisïau.

Rhannwyd £87,545 ymhlith pob cynrychiolydd maes diddordeb a oedd yn eistedd ar y TSPC fel yr amlinellir yn Adran 4.2.2 o'r Adroddiad hwn. Mae gwybodaeth am y modd y defnyddiwyd y cyllid hwn ar gael yn Adran 5.9 yr Adroddiad hwn.

## 5.6 Diogelu

Diogelu yw gwarchod plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r sawl sy'n ymwneud â nhw i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) agwedd o bartneriaeth gadarn a chryfach at ddiogelu.

Un o'r egwyddorion pwysicaf o ddiogelu yw ei fod yn fater o gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i bob sefydliad a pherson proffesiynol wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth.

Fel rhan o'i chefnogaeth i'r sector hwn, darparodd Llywodraeth Cymru £114,500 i alluogi cyngor ac arweiniad i gael ei ddarparu i'r sawl sy'n cefnogi neu sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion bregus sydd â'r potensial o fod mewn perygl.

## 5.7 Cronfa Newid

Mae angen i sefydliadau'r Trydydd Sector esblygu er mwyn gallu diwallu'r anghenion sy'n parhau i newid o ran dulliau darparu gwasanaethau.

Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sector i nodi meysydd i'w datblygu a darparodd gyllid i alluogi i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys platfform Gwirfoddoli Cymru unedig newydd; y Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd i'n galluogi ni i gasglu gwell data ar effaith y Trydydd Sector; a gweithio i ddatblygu'r platfformau digidol megis https://en.infoengine.cymru/ a https://funding.cymru/ a fydd yn helpu sefydliadau i gael gafael ar gyfleoedd i amrywio eu ffynonellau cyllid.

# 5.8 Cyllid a ddarparwyd i gefnogi TSSW yn 2017-18

| Dyraniadau | |
|---|---:|
| TSSW – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyllid Craidd Canolfan Gwirfoddoli – gweler y tabl isod am ddyraniadau Siroedd unigol | £4,464,695 |
| Cyllid Craidd Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru | £786,113 |
| Cronfa Gwirfoddoli Cymru | £1,331,112 |
| Cymorth Diogelu'r Trydydd Sector | £114,500 |
| Cronfa Newid y Trydydd Sector | £81,500 |
| Cronfa Meithrin Gallu – grantiau i rwydweithiau TSPC | £87,545 |
| **CYFANSWM** | **£6,079,352** |

**Cefnogaeth ariannol i Gynghorau Gwirfoddol Sirol unigol**

<table>
<tr><th>Rhanbarth</th><th>CVC</th><th>Craidd</th><th>YLG</th><th>Rhanbarth</th></tr>
<tr><td rowspan="6">Betsi Cadwaladr (Gogledd)</td><td>Conwy</td><td>£152,481</td><td>£4,000</td><td rowspan="6">£960,880<br>£24,000</td></tr>
<tr><td>Sir Ddinbych</td><td>£151,771</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Sir y Fflint</td><td>£156,530</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Gwynedd</td><td>£199,089</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Ynys Môn</td><td>£148,573</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Wrecsam</td><td>£152,435</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Hywel Dda (Gorllewin)</td><td>Sir Gaerfyrddin</td><td>£172,217</td><td>£4,000</td><td rowspan="3">£480,667<br>£12,000</td></tr>
<tr><td>Ceredigion</td><td>£154,316</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Sir Benfro</td><td>£154,134</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Powys</td><td>Powys</td><td>£315,957</td><td>£4,000</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">ABMU</td><td>Pen-y-bont ar Ogwr</td><td>£150,074</td><td>£4,000</td><td rowspan="3">£497,428<br>£12,000</td></tr>
<tr><td>Castell-nedd Port Talbot</td><td>£152,193</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td>Abertawe</td><td>£195,161</td><td>£4,000</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Caerdydd a'r Fro</td><td>Caerdydd</td><td>£185,539</td><td>£4,000</td><td>£350,270</td></tr>
<tr><td>Bro Morgannwg</td><td>£164,731</td><td>£4,000</td><td>£8,000</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cwm Taf</td><td>Merthyr Tudful</td><td>£144,824</td><td>£4,000</td><td>£326,084</td></tr>
<tr><td>Rhondda Cynon Taf</td><td>£181,260</td><td>£4,000</td><td>£8,000</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwent</td><td>Gwent</td><td>£583,797</td><td>£16,000</td><td>£747,296</td></tr>
<tr><td>Torfaen</td><td>£163,499</td><td>£4,000</td><td>£20,000</td></tr>
</table>

Nid dyma'r unig gyllid a ddarparwyd i sefydliadau'r Trydydd Sector ledled Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o sefydliadau eraill y Trydydd Sector.

Mewn llawer achos, roedd y cyllid hwnnw yn ymwneud â maes arbenigol o waith a chytunwyd ar y cyllid gan Weinidog priodol Llywodraeth Cymru

## 5.9 Perfformiad TSSW yn 2017-18

Weithiau gofynnir i ni pam rydyn ni'n darparu cyllid craidd i sefydliadau Trydydd Sector. Fel enghraifft o'r math o bethau rydym ni'n gofyn i'n derbynwyr Trydydd Sector ei wneud ar gyfer ein buddsoddiad, dyma rai o ffigurau perfformiad TSSW yn 2017-18.

| | | |
|---|---|---|
| Gwirfoddoli | 5256 o wirfoddolwyr wedi'u lleoli<br><br>a 2540 o wirfoddolwyr ifanc wedi ennill tystysgrifau MV 50 awr, a 700 wedi ennill 200 awr o wirfoddoli | Dyfarnwyd Grantiau Gwirfoddoli Cymru i 49 o brosiectau ledled Cymru ar gyfer gweithgarwch rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, a roddwyd i 2390 o bobl, gan gofnodi 201,162 awr o wirfoddoli.<br><br>Roedd y Paneli Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc, a oedd yn cynnwys 158 o bobl ifanc fel gwneuthurwyr grantiau, wedi dyrannu £93,614 i 157 o weithrediadau cymdeithasol dan arweiniad ieuenctid a phrosiectau gwirfoddoli, yn cynnwys 2339 o wirfoddolwyr ifanc. Meddai Molly, 17, aelod o banel Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc Sir y Fflint:<br><br>*'Mae bod yn rhan o'r grant yn fy ngalluogi i weld beth sy'n mynd ymlaen yn fy sir. Mae'n agor fy llygaid i lawer o faterion yn y gymuned. Mae'n rhoi pwrpas a theimlad o gysur i mi wybod 'mod i wedi cynorthwyo eraill'*<br><br>Roedd Canolfannau Gwirfoddoli Lleol wedi lleoli 5256 o wirfoddolwyr, gan weithio i ddarparu gwybodaeth, arweiniad ac arfer da i sefydliadau a oedd yn awyddus i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr yn effeithiol; gan gefnogi darpar wirfoddolwyr i ymgeisio am gyfleoedd priodol.<br><br>Cynhaliwyd dathliadau gwirfoddoli lleol yn ystod Wythnos Gwirfoddoli ac ar adegau eraill o'r flwyddyn. |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraethu Da | Ymatebwyd i 5889 o ymholiadau ymddiriedolwyr | Adolygwyd cronfa o daflenni gwybodaeth ymddiriedolwyr a llywodraethu er mwyn darparu canllawiau cyfredol ar gyfer grwpiau.<br><br>Darparodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVC) wybodaeth, canllawiau a hyfforddiant ar lywodraethu da gan gynnig sesiynau un i un gyda grwpiau lleol i'w helpu i fynd i'r afael â materion a'u llywio at gyngor mwy arbenigol lle bo angen. Gweithiodd Swyddogion Datblygu gyda grwpiau i sefydlu a rhedeg elusen, yn cynnwys helpu i sefydlu Cyfansoddiad, canllawiau ar drosglwyddo asedau cymunedol, rheoli pobl, codi arian ac ati.<br><br>*"Ni fyddai'r llyfrgell fel y mae heddiw oni heb gyfarwyddyd Interlink. Diolch i chi am barhau i fod yno gyda ni".*<br><br>*"Cefais e-bost y bore yma yn derbyn ein cais i gofrestru Dylan Gunner's Wish fel elusen … does gen i mo'r geiriau i ddisgrifio'n hapusrwydd, ac rwy'n ddiolchgar dros ben am eich cymorth gyda'r cais"*<br><br>Darparodd WCVA wybodaeth arbenigol am ddiogelu, a chyngor a gwasanaeth hyfforddi, gan gydweithio â'r Llysgenhadon Diogelu CVC i gefnogi grwpiau lleol.<br><br>Bu'r WCVA yn gweithio gyda rhanddeiliaid cenedlaethol yn cynnwys y Comisiwn Elusennau, Grŵp Cod Llywodraethu Elusennau'r DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ati, i ddarparu gwybodaeth am ac ar gyfer y sector yng Nghymru.<br><br>Cynorthwyo gyda gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Cyffredinol Mai 2018, gan ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i alluogi'r Sector i baratoi oedd prif ffocws ein gwaith.<br><br>Yn ystod yr Wythnos Ymddiriedolwyr ym mis Tachwedd 2017, cydweithiodd partneriaid TSSW i gynnal digwyddiadau ledled Cymru i hyrwyddo Cod Llywodraethu Da Elusennau'r DU.<br><br>Hyrwyddodd holl bartneriaid TSSW safon ansawdd PQASSO gan ymroi i gyflawni PQASSO Lefel Un erbyn Mawrth 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau Cynaliadwy** | Darparwyd £27.3 miliwn trwy gynlluniau benthyg a grantiau.<br><br>Bu Swyddogion Datblygu CVC yn gymorth i helpu grwpiau i ennill £39,931,517 | Cynhaliodd partneriaid TSSW 218 o ddigwyddiadau cyllido gyda 3501 o gyfranogwyr a ffeiriau cyllido lleol. Cyllid hefyd oedd thema allweddol digwyddiad blynyddol WCVA, Gofod3.<br><br>Cydweithredodd prif gyllidwyr yn yr holl ardaloedd. Yn bennaf roedd hyn ar ffurf digwyddiadau cyfarfod â'r cyllidwr gyda'r Gronfa Loteri Fawr, Chwaraeon Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Plant mewn Angen, People's Health Trust, Sefydliad Lloyds a Sefydliad Waterloo a Local Giving.<br><br>Cydweithiodd partneriaid TSSW ag asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth arbenigol yn cynnwys Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu, Busnes Cymdeithasol Cymru, Sefydliad Codi Arian Cymru, Cymdeithasau Tai a Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o weithdai a chyrsiau hyfforddi hefyd i gefnogi sefydliadau ynghylch cynllunio strategol, sgiliau codi arian ac adfer costau llawn.<br><br>Ym mis Gorffennaf 2017, cynlluniwyd a chyflawnwyd rownd gyntaf digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol TSSW mewn partneriaeth â WCVA a CVC mewn tri lleoliad ar draws Cymru ym Mhowys, Merthyr Tudful a Sir y Fflint. Gan ganolbwyntio ar biler cyllido cynaliadwy gweithgarwch TSSW, roedd y digwyddiadau ar thema, *'Codi Arian ar gyfer y Dyfodol'*, yn dangos mewnbwn gan y Rheoleiddiwr Codi Arian a Sefydliad Codi Arian Cymru gyda mwy na 100 wedi mynychu. |
| **Dylanwadu ac ymgysylltu strategol** | 1298 o rwydweithiau/ fforymau Trydydd Sector wedi'u cefnogi | Hwylusodd partneriaid TSSW amrywiaeth o sianelau a oedd wedi cefnogi'r sector i gael llais dylanwadol mewn gwasanaethau a pholisïau cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys rhwydweithiau Trydydd Sector ar thema, a oedd yn cynnig cyfleoedd i grwpiau'r Trydydd Sector a sefydliadau i rannu gwybodaeth, cydweithio a chydlynu dylanwad a chynrychioli.<br><br>Galluogodd y rhwydweithiau hyn bartneriaid TSSW i ymgysylltu â'r aelodau, ac ag amrywiaeth eang o sefydliadau, a rhannu persbectif eang o faterion ar draws y Sector trwy eu gweithgareddau dylanwadu ar fyrddau a phartneriaethau rhaglenni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Hefyd, darparodd y rhwydweithiau fforwm i 'gynrychiolwyr' etholedig y Trydydd Sector ymgysylltu â rhwydwaith ehangach o randdeiliaid y Trydydd Sector. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Roedd CVC yn aelodau o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ac fe wnaethant ddarparu aelod lleol ar gyfer pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB).<br><br>Hwylusodd WCVA Gynllun y Trydydd Sector, yn cynnwys cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Trydydd Sector, a chyfarfodydd rhwng pob Gweinidog a rhwydweithiau perthnasol y Trydydd Sector.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol WCVA, **Gofod3**, ar 7 Mawrth 2018 lle cafwyd cyfres o seminarau ar bynciau polisi o ddiddordeb i'r Trydydd Sector. Daeth cyfeillion ynghyd i ddysgu am ac i drafod materion allweddol, sef:<br><br>• Y berthynas rhwng sefydliadau cyhoeddus a'r Trydydd Sector<br>• Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru<br>• Cymru-wybodus am Brofiadau Niweidiol i Blant<br>• Menywod yn y Senedd<br>• Grymuso cymunedau i ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Rhagnodi Cymdeithasol<br>• Clywed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Lansio Hyb Data'r Trydydd Sector<br>• Brexit<br><br>Lansiodd WCVA Hyb Data'r Trydydd Sector, sy'n darparu ystadegau diweddar am y Trydydd Sector yng Nghymru. |

# Astudiaeth Achos

## Enghraifft o TSSW yn cefnogi llywodraethu da yn y Trydydd Sector – Prosiect Sgiliau'r Trydydd Sector – Helpu'r Sector i recriwtio ymddiriedolwyr






**Crëwyd prosiect Sgiliau'r Trydydd Sector (TSS) yn sgil tystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys (PAVO) ynghylch yr anhawster i gadw a dod o hyd i ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr ac aelodau pwyllgorau yn sefydliadau'r Trydydd Sector.**

Roedd misoedd cychwynnol y prosiect yn cynnwys edrych ar y dystiolaeth a oedd gennym yn barod a'i hehangu er mwyn archwilio'r prif faterion mae sefydliadau yn eu hwynebu – recriwtio ymddiriedolwyr dan 50 oed; defnyddio cyfryngau cymdeithasol; diffyg amser a chapasiti; llawer o swyddi gwag a dysgu am ffyrdd gwahanol o recriwtio ymddiriedolwyr newydd.

Gweithiodd TSS gyda sefydliadau i greu pecynnau recriwtio digidol i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfryngau wedi'u hargraffu. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi galluogi sefydliadau i dargedu eu haelodau a/neu eu hardal gymunedol.

Un o brif feysydd y prosiect yw gweithio ar y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn ymddiriedolwr. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ei ystyried fel rhywbeth i chi ei wneud pan fyddwch wedi ymddeol, tra bod rhai sefydliadau yn ystyried ymddiriedolwyr ifanc fel gweithred symbolaidd heb weld yr effaith gadarnhaol y gall person ifanc ei gyfrannu i'r Bwrdd. Mae'r prosiect yn gweithio gyda Chybiau Ffermwyr Ifanc, disgyblion chweched dosbarth, a cholegau i fynd i'r

afael â hyn ac i roi i bobl ifanc y cyfle i gysgodi un o ymddiriedolwyr y Bwrdd. Yn gyfnewid am hyn mae'r byrddau'n cael persbectif person ifanc yn ogystal â manteisio ar y sgiliau sydd ganddyn nhw. Cefnogodd y prosiect 22 o leoliadau o bobl dan 40 oed rhwng 17 Rhagfyr a Mawrth 2018.



Roedd Biwro Gwirfoddolwyr Aberhonddu yn awyddus i recriwtio ymddiriedolwyr ifancach a thrwy gymorth TSS, fe wnaeth ymddiriedolwraig ifanc, Laura, gymryd sedd ar eu Bwrdd. Meddai Francesca, Rheolwr y Swyddfa:

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n bwrdd o Ymddiriedolwyr gan fod yr oedran cyfartalog yn weddol uchel, er mai dim ond un person sydd wedi ymddeol, felly mae'n beth da i gael persbectif ffres a safbwynt ifancach yn ein plith sy'n ategu profiad y gweddill. Mae hi wedi bod yn berson dibynadwy a galluog ac mae hi wedi gwneud rhai awgrymiadau rhagorol ac wedi gwirfoddoli i fod yn Ysgrifennydd. Mae sgiliau TG a'r cyfryngau cymdeithasol sydd gan bobl ifanc yn hynod ddefnyddiol yn ogystal â chyngor ar sut mae pobl ifanc yn ymgysylltu ag elusennau fel ein helusen ni.'

Mae llywodraethu da hefyd yn flaenoriaeth i fyrddau ymddiriedolwyr. Mae PAVO a phrosiect Sgiliau'r Trydydd Sector yn cefnogi'r sefydliadau hyn gyda hyfforddiant ar gyfer ymddiriedolwyr newydd a chefnogaeth mentora ar gyfer tasgau lle bydd angen cefnogaeth arbenigol ar y byrddau. O ganlyniad, mae sefydliadau wedi cynyddu eu gallu a gwella eu llywodraethu.



# 6. Cefnogi Cymunedau a Gwirfoddoli

| Gall gwirfoddoli roi synnwyr o ddiben | Gall gwirfoddoli roi profiad gyrfaol | Gall gwirfoddoli hybu eich gyrfa |
|---|---|---|

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod rhoi amser i wirfoddoli a rhoi o'ch arbenigedd i gefnogi eraill (yn rhad ac am ddim i berson neu gymuned neu grŵp, heb fantais ariannol i'r gwirfoddolwr) yn nodwedd hanfodol o ddinasyddiaeth dda.

Yn y pen draw ystyr gwirfoddoli yw helpu eraill a chael effaith ar lesiant pobl. Yn aml mae gwirfoddolwyr yn elwa llawn gymaint ar y profiad â'r unigolion a'r cymunedau maen nhw'n eu helpu.



Yn 2017-18, roedd tua 938,000 o bobl wedi gwneud gweithgaredd gwirfoddol ledled Cymru, sy'n parhau ein traddodiad o gefnogi eraill yn ein cymunedau (gweler y troednodyn).

Cydnabu Llywodraeth Cymru y gwerth a'r effaith a gafodd gwirfoddoli ar fywydau pobl ar draws cymunedau a darparodd gyllid i sicrhau bod yna lwybrau cymorth ar gyfer pobl sydd am wneud eu gorau er lles eraill.

Rydym ni hefyd yn ymwybodol o'r manteision go iawn i unigolion a ddaw yn sgil gwirfoddoli, ac mae rhai wedi'u nodi isod:

- **Gall gwirfoddoli roi synnwyr o ddiben – rhywbeth i wneud sydd o les i'r sawl sy'n gwirfoddoli ac i'r person neu'r achos maen nhw'n ei helpu.**

  Gall bod â "dim i'w wneud" effeithio'n negyddol ar hunan werth unigolyn. Er bod heriau i'w hwynebu a rhwystrau i'w goresgyn, gall y siwrnai ddod â chanlyniadau cadarnhaol a bod yn rhywbeth llesol. Ac i'r sawl sy'n derbyn cymorth, does dim yn well na help llaw.

  Mae gan wirfoddolwyr y gallu i wneud bywyd yn well i bawb.

- **Gall gwirfoddoli fod yn gyfle i hybu gyrfa**

  Mae dod o hyd i swydd a chadw swydd yn ffordd wych o wella ansawdd bywydau unigolion. I'r sawl sy'n chwilio am gyfleoedd gyrfaol, mae gwirfoddoli yn gyfle i roi cynnig ar yrfa newydd heb wneud ymrwymiad hirdymor. Mae'n gyfle i gael profiad mewn maes newydd a dysgu sgiliau newydd. Mae llawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn darparu hyfforddiant sylweddol. Mae cael profiad a sgiliau dymunol yn gwella gobaith ymgeisydd o gael swydd mewn marchnad gystadleuol.

- **Gall gwirfoddoli hybu eich gyrfa**

  I'r sawl sydd eisoes yn gyflogedig, gall gwirfoddoli roi profiad mewn maes lle mae gennych ddiddordeb a chyfle i gyfarfod pobl o'r un anian â chi. Gall gwirfoddoli roi cyfle i ymarfer sgiliau hanfodol a ddefnyddir yn y gweithle, fel gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cynllunio prosiectau, rheoli tasgau a threfnu.

## Hoffech chi Wirfoddoli?

http://www.volunteering-wales.net/why-volunteer/

## Ydych chi'n chwilio am Wirfoddolwyr?

http://www.volunteering-wales.net/organisations/

Adnodd Ystadegol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer y Trydydd Sector 2016
http://www.wcva.org.uk/about-us/news/2016/08/third-sector-statistical-resource-2016

# Astudiaeth Achos

## Codi arian ar gyfer Hosbis Dewi Sant



**Mae Hosbis Dewi Sant yn elusen leol sy'n darparu gofal hosbis i gleifion sy'n oedolion ar draws Conwy, Gwynedd a Môn. Rydym ni'n darparu gofal lliniarol arbenigol o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim i gleifion sydd â salwch dwys, ac i'w teuluoedd a'u gofalwyr.**

Mae mwy na 350 o bobl wedi rhoi o'u hamser i wirfoddoli ar gyfer Hosbis Dewi Sant bob blwyddyn. Mae £525,000 yn cael ei arbed, diolch i'r gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser a'u sgiliau yn rhad ac am ddim.

Mae'r Ffair Haf yn un o'r digwyddiadau codi arian niferus yn ystod y flwyddyn. Yn y llun mae ein gwirfoddolwyr Lorraine a Donna yn rhoi gwên ar wynebau ymwelwyr yn ein digwyddiad blynyddol.

# Astudiaeth Achos

## Rhoi ac Ennill – Diwrnodau Gwirfoddoli Cyflogeion



Roedd yr wythnos Give & Gain wedi galluogi busnesau i gysylltu â'u cymunedau trwy gael cyflogeion yn gwirfoddoli. Cynhaliodd Green Days dri digwyddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, MotoNovo Finance, Banc Lloyds, ac ACT Training.

oedd grwpiau yn gweithio ochr yn ochr ag oedolion ag anawsterau dysgu i wneud gwelliannau i Barc Gwledig Fferm y Fforest yng Nghaerdydd. Gyda'i gilydd fe greon nhw bwll bywyd gwyllt, fe fuon nhw'n cribinio gwair i wneud lle ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf, yn dadwreiddio clychau'r gog ymledol, a chwynnu gardd y bwthyn.

Bu 86 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan gan gyfrannu 516 o oriau. Ar ddiwedd pob sesiwn cynhaliwyd sesiwn o Tai Chi i ymlacio ar ôl diwrnod caled o waith!

# 7. Cyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector – 2017-18

Mae **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Chod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector** a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi nodiadau eglurhaol ar y mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau'r Trydydd Sector.

- **Cymorth Grant neu "Grant"**
- **Caffael**

Rhaid i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r angen i reoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol ac er lles y cyhoedd.

Mae **Rheoli arian Cyhoeddus Cymru** yn gosod y fframwaith a'r egwyddorion sy'n rhaid eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, ei chyrff a noddir, GIG Cymru, ei chomisiynwyr, y Cyngor Gweithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/publications/160201-managing-money-cy.pdf

## Beth sydd yn y Cod?

Mae **Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru (y Cod) yn rheoli sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau drin cyllid y Sector.

Mae'r Cod yn nodi'r mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau cyllido arnynt, a'r telerau a'r trefniadau y dylid cynnig cyllid.

http://gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/publications/third-sectorscheme/?lang=cy

Anogwyd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu codau ymarfer eu hunain ar gyllido'r Sector.

## Gwariant Llywodraeth Cymru ar y Trydydd Sector yn 2017-18

Yn 2017-18 gwariodd Llywodraeth Cymru £323.1 miliwn ar gyllid uniongyrchol i'r Trydydd Sector (gwariant Grant a Chaffael).

Nid oedd hyn yn cynnwys taliadau anuniongyrchol a wneir i sefydliadau'r Trydydd Sector lle darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i sefydliad arall, er enghraifft, Awdurdod Lleol, a all fod wedi cyllido sefydliad y Trydydd Sector maes o law.

Roedd y Trydydd Sector wedi llwyddo i ddenu £45.3 miliwn yn 2017-18 o ran gwariant caffael. Roedd hyn ar ben y £294 miliwn y sicrhaodd y Trydydd Sector o wariant caffael Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ers 2012-13.

# 8. Edrych ymlaen at 2018-19

## Edrych ymlaen at 2018-19:

**Bydd ein hymrwymiad yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â’r Trydydd Sector i ddatblygu polisïau a chyflawni dros Gymru**

**Byddwn yn gwneud ein gorau i ddangos yr effaith a gaiff gwirfoddolwyr ar adeiladu cymunedau trwy roi o’u hamser**

**Byddwn yn parhau i Gefnogi’r Trydydd Sector gan rannu adnoddau a chydweithio**

**Byddwn yn parhau i Adeiladu etifeddiaeth o wirfoddolrwydd ledled Cymru**



# 9. Rhagor o Wybodaeth

Am wybodaeth am Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r Trydydd Sector, ewch i:
www.gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/?lang=cy

Am wybodaeth am wirfoddoli, ewch i
www.volunteering-wales.net

Neu ewch i'ch Canolfan Wirfoddoli neu eich Cyngor Gwirfoddoli Sirol lleol.
www.wcva-ids.org.uk/

Fel arall gallwch gysylltu ag Uned y Trydydd Sector yn
thirdsectorqueries@gov.wales neu ffonio (0300) 062 8274.

Am wybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar (0800) 2888329 neu ewch i'w gwefan www.wcva.org.uk

Am ragor o wybodaeth am Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ewch i'w gwefant
www.thirdsectorsupport.wales/cy/



Cydnabyddiaeth am y lluniau: Cafwyd caniatâd i ddefnyddio pob llun

© Hawlfraint y Goron 2019
WG36843 ISBN digidol 978-1-78964-897-3 ISBN argraffu 978-1-78964-898-0